

Deall y materion a all fod yn cyfrannu at wahaniaethau hiliol o fewn dulliau dargyfeirio cyn-llys yng Nghymru ar gyfer pob grŵp o bobl, gyda ffocws ar Fenywod a Phlant:

Adolygiad o'r Llenyddiaeth

Crynodeb Gweithredol

Awdur: **Mark Jones**

Cyfarwyddwr, Higher Plain Research & Education ac
Athro Ymweld ar gyfer y Ganolfan Troseddeg,
Prifysgol De Cymru



Cyfiawnder Troseddol
yng Nghymru
**Criminal Justice
in Wales**



Glasbriant Cyfiawnder
i Fenywod
**Women's Justice
Blueprint**



Rheolwyr Timau Troseddu Ieuencid Cymru
YOT Managers Cymru



WCCSJ

Canolfan Trosedd a Cyfiawnder Chymdeithasol Cymru
Welsh Centre for Crime and Social Justice



Centre for Criminology

University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru

Cynnwys

Dull a Chynllun yr Ymchwil	7
----------------------------	---

 1 Gwerthuso llwyddiant ac effaith OoCD a rhaglenni Dargyfeirio.	9
---	---

 2 Dadansoddiad manylach o raglenni dargyfeirio cyn-llys yn y CJS	11
Diffyg safbwyntiau lleiafrifoedd ethnig o fewn llenyddiaeth dargyfeirio cyn-llys	13

 3 Cefnogi a chwrdd ag anghenion menywod yn y CJS ac yn fwy penodol y rheini o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig o fewn y defnydd o ddargyfeirio ac ymyrraeth cyn-llys.	14
--	----

 4 Profiadau plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig o'r YJS a dargyfeirio	18
Dealltwriaeth o arferion Dargyfeirio cyn-llys gyda phlant a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig	20

 5 Defnyddio Theori Dysgu ac Ymarfer wrth Ddatblygu Dulliau Dargyfeirio.	22
---	----

Casgliad	23
----------	----

Llyfryddiaeth a Chyfeiriadau	25
------------------------------	----

Diolchiadau

Hoffai'r awdur ddiolch i aelodau Grŵp Llywio Cynllun Gwrth-Hiliaeth Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru am gefnogi'r prosiect Dargyfeirio hwn, a'r Partneriaid Comisiynu a wnaeth yr adolygiad hwn yn bosibl. Ni fyddai'r gwaith hwn wedi bod yn bosibl ychwaith heb i swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru roi cychwyn arno.



Deall y materion a all fod yn cyfrannu at wahaniaethau hiliol o fewn dulliau dargyfeirio cyn-llys yng Nghymru ar gyfer pob grŵp o bobl, gyda ffocws ar Fenywod a Phlant:

Adolygiad o'r Llenyddiaeth

Crynodeb Gweithredol

Teimlwyd marwolaeth drasig George Floyd ar draws y byd ac amlygodd ein heriau ein hunain gyda hiliaeth yn y DU a Chymru. Arweiniodd y protestiadau a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ac mewn dinasoedd eraill yng Nghymru, fel rhan o'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys, at adfyfrio mewn sawl rhan o gymdeithas gan y sefydliadau sy'n ei llunio ac yn dylanwadu arni, gan gynnwys y System Cyfiawnder Troseddol (CJS).

Mewn ymateb, bu Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru (CJIW) yn gweithio gyda'r holl bartneriaid yn y CJS ledled Cymru i ddatblygu cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth drwy ymgysylltu'n ymrwymedig â grwpiau a chymunedau lleiafrifoedd ethnig ledled Cymru i sicrhau ei fod yn cael ei gydgyhyrchu. Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru ym mis Medi 2022 yn dilyn cyhoeddi Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru Llywodraeth Cymru ym mis Mai. Mae cynllun Llywodraeth Cymru a chynllun y CJS yn alinio ac yn cefnogi ei gilydd gyda'r nod o ddull system gyfan o ymdrin â gwrth-hiliaeth a newid ar draws cymdeithas.

Mae'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar gyfer y CJS yng Nghymru (2022) wedi gwneud saith ymrwymiad i'r cyhoedd yng Nghymru ac yn nodi y bydd yn cyflawni'r cynllun yn unol â diffiniad a dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o wrth-hiliaeth. Mae cynllun gweithredu'r CJS felly yn seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'i lywio gan y rhai sydd ag arbenigedd yn y maes hwn ac yn bwysig gan a chydag arbenigwyr sydd â phrofiadau uniongyrchol o'r System Cyfiawnder Troseddol a/neu sy'n gweithio ym maes gwrth-hiliaeth.

Mae ymchwil yn awgrymu y gall y rheini â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys menywod a phlant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, wynebu anfantais ddwbl yn eu rhyngweithio â'r CJS. Yn wir, mae'r rhan fwyaf o academyddion ac ymchwil yn y maes hwn yn canfod bod y CJS yn hiliol ar lefel bersonol, ddiwylliannol, a sefydliadol a strwythurol. Yn 2017, amlygodd Adolygiad Lammy wahaniaethau yn y ffordd y caiff pobl o leiafrifoedd ethnig yn y CJS eu trin, a'u canlyniadau. Mae diffynyddion o leiafrifoedd ethnig yn gyson yn fwy tebygol o bledio'n 'ddieuog' na diffynyddion Gwyn ac o ganlyniad, os canfyddir eu bod yn 'euog', maent wedyn yn fwy tebygol o wynebu dedfrydau mwy cosbol na phe baent wedi cyfaddef euogrwydd. Tynnodd Lammy sylw at y ffaith mai diffyg ymddiriedaeth yn y CJS sydd wrth wraidd y mater hwn.

Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, mae'n amlwg bod taith hir iawn o'n blaenau o hyd i fynd i'r afael â hiliaeth, gor-gynrychiolaeth, a thriniaeth wael o bobl o leiafrifoedd ethnig, ac yn enwedig y rheini â nodweddion gwarchodedig ychwanegol a/neu elfennau o fod yn agored i niwed fel menywod a phobl ifanc, ar draws y CJS cyfan.

Roedd y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod ar y cyd rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru (2019) yn nodi gweledigaeth i adeiladu ar y gwaith o drawsnewid gwasanaethau i wella canlyniadau a phrofiadau menywod ledled Cymru, drwy ddull system gyfan. Mae'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod (2019) wedi ceisio hyrwyddo'r angen i fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'i lywio gan drawma o ddarparu a dylunio gwasanaethau i fenywod. Mae'r Glasbrint yn canolbwyntio ar gyflawni ar draws nifer o feysydd thematig sy'n adlewyrchu cyfnodau allweddol y daith cyfiawnder troseddol, ac o'i mewn, mae ffocws penodol ar gryfhau cyfleoedd ymyrraeth gynnar ac atal i fenywod ledled Cymru a chreu opsiynau cadarn yn y gymuned sy'n bodloni anghenion menywod. Fodd bynnag, mae'r Glasbrint hefyd yn cydnabod bod bylchau allweddol yn y sylfaen dystiolaeth mewn perthynas â menywod o gefndir lleiafrifoedd ethnig, a allai fod yn amharu ar y gallu i gynnig y cymorth cywir. Drwy beidio â deall yr heriau posibl y mae'r unigolion hyn yn eu hwynebu, y risg yw efallai nad ydynt yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt a/neu efallai eu bod yn ymddieithrio o'r gwasanaethau sydd ar gael oherwydd nad yw eu hanghenion yn cael eu deall yn llawn.

Mae'r Glasbrint Cyfiawnder i Ieuenctid (2019) yng Nghymru yn tynnu sylw at bwysigrwydd cefnogi plant sydd â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) sydd â risgiau llawer uwch o gyflawni trais a mynd i'r carchar na phlant nad oes ganddynt ACE. Mae'r Glasbrint yn canolbwyntio'n bennaf ar atal a lleihau effaith ACE a chefnogi newid cadarnhaol mewn plant. Fel y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod, y nod yw cyflawni hyn drwy ddull system gyfan gan ddefnyddio ymarfer a system seiliedig ar hawliau wedi'i lywio gan drawma. Prif elfennau'r Glasbrint Cyfiawnder i Ieuenctid yw: Atal wedi'i dargedu, dargyfeirio cyn-llys, a gwasanaethau cymunedol gyda phwyslais ar gyflwyno dull wedi'i lywio gan drawma. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn

awgrymu, er bod dargyfeirio ieuenctid yn fuddiol i'r plant sy'n mynd drwyddo a dangoswyd ei fod yn lleihau aildrosedd, mae anghymesuredd o ran mynediad ac ymgysylltiad ag ef gan blant o leiafrifoedd ethnig. Mae ymchwil yn dangos yn gryf bod triniaeth anghyfartal yn gynnar yn y CJS yn cronni i wahaniaethau mwy yn ddiweddarach (The Centre for Justice Innovation, 2021).

Mae'r realiti hwn wedi llunio'r Gweithredu Gwrth-hiliol ar gyfer y CJS yng Nghymru ac mae'n cyd-fynd â sawl thema yn y cynllun ond yn ymwneud yn uniongyrchol ag Ymrwymiad 7 ynghylch y gwaith gwrth-hiliol sydd ei angen o fewn 'Atal, Ymyrraeth Gynnar ac Adsefydlu' o fewn y CJS. Mae ymrwymiad i 'weithio gyda'n gilydd i roi terfyn ar or-gynrychiolaeth pobl o leiafrifoedd ethnig sydd wedi cyflawni trosedd a diffynyddion yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a 'Byddwn yn darparu cymorth cyfannol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'i lywio gan drawma i droseddwy'r a'r rheini mewn perygl o drosedd fel y gallant wneud dewisiadau bywyd gwybodus ar gyfer cyflogaeth, addysg, perthnasoedd cymdeithasol, ac iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol.' Mae hyn yn golygu bod angen gwneud gwaith i ddeall mwy am brofiadau uniongyrchol ac anghenion pob grŵp lleiafrifoedd ethnig a phrofiadau o ddargyfeirio cyn-llys gyda ffocws ar Fenywod a Phlant a dyma nod cyffredinol y gwaith prosiect hwn.

Mae gwaith gwrth-hiliaeth yn cael ei ddatblygu ledled Cymru ar hyn o bryd ac yng Nghaerdydd roedd hwn yn cael ei lywodraethu a'i arwain gan Dasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd a chefnogwyd hyn gan swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru. Roedd Tasglu Caerdydd wedi cael y dasg o nodi cyfleoedd ymarferol ar gyfer newid gwrth-hiliol i wella cydraddoldeb hiliol yn y ddinas, gan ddod o hyd i ffyrdd newydd a allai ddefnyddio ysgogiadau lleol i wella profiadau a chanlyniadau i drigolion lleiafrifoedd Ethnig. Gweithiodd y Tasglu mewn partneriaeth â chymunedau, unigolion â phrofiad uniongyrchol a sefydliadau arbenigol, i nodi'r problemau ac, yn bwysicaf oll, i gydweithio ar atebion i fynd i'r afael â gwahaniaethau hiliol. Nododd y Tasglu a swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru yr angen i fynd i'r afael â phrofiadau negyddol o ddargyfeirio y mae plant, menywod a dynion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn eu hwynebu yn eu cymunedau.

Cytunwyd felly bod angen prosiect cydweithredol rhwng y Tîm Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod, y Tîm Glasbrint Cyfiawnder i Ieuencid, Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd, a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru, a sefydliadau eraill ar draws y CJS yng Nghymru i archwilio a deall profiadau ac anghenion pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a oedd neu a ddylai fod yn ymgysylltu â dargyfeirio cyn-lllys. Hwyluswyd y prosiect hwn gan swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru yn benodol wrth ddatblygu'r fanyleb ac o ran eu cefnogaeth i gydlynu'r gwaith hwn. Y bwriad yw y bydd canfyddiadau'r prosiect hwn yn datblygu set o argymhellion a fydd yn cyfrannu at ddysgu ehangach ar draws y CJS ac yn llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol i flaenoriaethu llwybrau atal a dargyfeirio.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r ymchwil presennol yn cael ei gomisiynu i ddarparu mewnwelediad a thystiolaeth i alluogi partneriaeth cyfiawnder troseddol leol Caerdydd i gyflawni'r argymhelliad a ganlyn:

Partneriaeth cyfiawnder troseddol leol Caerdydd i ddatblygu a buddsoddi mewn dulliau wedi'u teilwra neu ddulliau amgen o ddargyfeirio ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) menywod a phlant.

Rhagwelir y bydd canfyddiadau'r ymchwil hwn yn cael eu rhannu â phartneriaid ledled Cymru, drwy drefniadau llywodraethu cyfiawnder troseddol Cymru gyfan er mwyn bod o fudd a helpu i lywio'r gwaith o ddylunio ac ymateb i wasanaethau ar gyfer y rheini o gymunedau lleiafrifoedd ethnig ledled Cymru.

Bydd yr ymchwil hwn yn canolbwyntio ar gyfleoedd i wneud penderfyniadau ar ymyrraeth gynnar ac atal trwy ddargyfeirio cyn-lllys, ar gyfer pob grŵp a nodwedd lleiafrifoedd ethnig ond gyda ffocws ar (ond heb fod yn gyfyngedig i) fenywod a phlant (17 oed ac iau). Gan mai yng Nghaerdydd y dechreuodd y gwaith, dyma fydd yr ardal o ffocws daearyddol ar gyfer natur gymhwysol diweddarach yr ymchwil hwn. Fodd bynnag, bydd yr hyn a ddysgir yn cael ei ledaenu ledled Cymru, drwy'r trefniadau llywodraethu cyfiawnder troseddol Cymru gyfan presennol a Byrddau Prosiect Glasbrint.

Dull a Chynllun yr Ymchwil

Bydd y prosiect hwn yn defnyddio dull cymysg dilyniannol i fodloni nodau a chwmpas y cynnig mewn pedwar cam:

1. Adolygiad bwrdd gwaith o'r llenyddiaeth sydd ar gael i ddeall yn well y wybodaeth gyfredol, ymarfer, bylchau, ac argymhellion ar gyfer datblygu ymarfer yn y dyfodol, gan gynnwys:

- Ymchwil, polisi, gwerthusiadau, ymarfer, a chanllawiau sydd eisoes yn bodoli ynghylch dargyfeirio ac atal cyn-lllys, gan gynnwys defnyddio OOCd, a gwneud penderfyniadau yn y system.
- Adolygiad o naratifau ymgysylltu cymunedol diweddar ac adroddiadau a gynhaliwyd wrth gyd-gynhyrchu'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar gyfer y CJS yng Nghymru gan ganolbwyntio ar brofiadau'r heddlu a'r CJS ehangach.
- Sicrhau bod dysgu sy'n ymwneud yn benodol â thrawma hiliol / Ymarfer wedi'i Lywio gan Drawma yn cael ei amlygu.

2. Mapio'r broses penderfynu mewn perthynas â gweithgarwch dargyfeirio a dargyfeirio cyn-lllys ar gyfer pawb sy'n ymwneud ag ardal Caerdydd:

- Deall y cynnydd o ran gwneud penderfyniadau trwy ddatblygu siart llif gwneud penderfyniadau.
- Dadansoddi a 'mapio' y data i'r pwyntiau gwneud penderfyniadau allweddol ar y siart llif gwneud penderfyniadau er mwyn deall yn well ac archwilio cyfleoedd i ddefnyddio data.
- Nodi pwy sy'n gyfrifol ac archwilio trwy grwpiau ffocws beth sy'n cyfrannu at benderfyniadau allweddol ym maes dargyfeirio cyn-lllys.
- Deall profiadau sefydliadau sy'n darparu gweithgareddau ac ymyriadau dargyfeirio, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sydd wedi derbyn dargyfeiriad cyn-lllys, ac os yw'n bosibl cyfreithwyr sy'n rhoi cyngor

mewn perthynas â derbyn dargyfeirio cyn-lllys ac OoCD.

- Adroddiad Astudiaeth Achos (byr i hwyluso ymgysylltiad cymunedol a blociau adeiladu ar gyfer yr adroddiad terfynol).

3. Yn dilyn camau 1-2, hwyluso ymgysylltiad cymunedol priodol a sensitif gyda grwpiau rhanddeiliaid allweddol sydd â phrofiadau byw o'r CJS i brofi a herio'r argymhellion a'r ddealltwriaeth.

- Grwpiau ffocws rhanddeiliaid allweddol i gael eu hwyluso gan y rhai sydd â phrofiadau byw o'r CJS o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sydd bellach yn gweithio mewn gwasanaethau cymorth yn y CJS a/neu broffesiynau iechyd perthynol.

4. Cynhyrchu adroddiad terfynol sy'n crynhoi gwaith camau 1-3 gan sicrhau bod y prif themâu llenyddiaeth, canfyddiadau grwpiau ffocws, argymhellion ar gyfer arfer gorau a dealltwriaeth o wneud penderfyniadau wedi'u cefnogi / cytuno gan y grwpiau rhanddeiliaid.

Dylai'r uchod i gyd gyfrannu at gynhyrchu set o argymhellion/ystyriaethau (gan roi sylw penodol i fenywod a phlant) a fydd yn cyfrannu at ddatblygiad:

Dulliau wedi'u teilwra neu ddulliau amgen o ddargyfeirio ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd Ethnig sydd hefyd wedi'u llywio gan drawma. Mae hyn er mwyn sicrhau bod cyfle cyfartal i ddargyfeirio oddi wrth y CJS ac at wasanaethau sy'n seiliedig ar gymorth.

Yr adroddiad hwn yw diwedd cam un y prosiect hwn a rhennir canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad helaeth o'r llenyddiaeth yn y crynodeb gweithredol hwn.

Roedd anghenion yr adolygiad llenyddiaeth yn helaeth ac felly roedd ganddo bum prif thema i'w harchwilio, sef:

 **1** Gwerthuso llwyddiant ac effaith OoCD a rhaglenni Dargyfeirio.

 **2** Dadansoddiad manylach o raglenni dargyfeirio cyn-llys yn y CJS.

 **3** Cefnogi a chwrdd ag anghenion menywod yn y CJS ac yn fwy penodol y rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig o fewn y defnydd o ddargyfeirio ac ymyrraeth cyn-llys.

 **4** Profiadau plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig o'r YJS a dargyfeirio.

 **5** Defnyddio theori ac ymarfer dysgu wrth ddatblygu dulliau dargyfeiriol.

Roedd pob un o'r themâu hyn yn cynnig gwersi defnyddiol ac argymhellion i'w hystyried yn y dyfodol wrth ddatblygu dargyfeirio cyn-llys.



Gwerthuso llwyddiant ac effaith OoCD a rhaglenni Dargyfeirio.

Mae Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys (OoCD) yn galluogi'r heddlu i ymdrin ag ymddygiad troseddol lefel is ac yn aml am y tro cyntaf trwy ddefnyddio gorchymyn gwaredu priodol heb fod angen mynd trwy broses erlyn llys. Mae ystod o chwe math gwahanol o OoCD yng Nghymru a Lloegr ac mae'r rhain yn cynnwys; Rhybuddion Canabis, Penderfyniadau Cymunedol, Rhybuddiadau Amodol, Rhybuddion Khat, Hysbysiadau Cosb am Anhrefn (PND), a Rhybuddiadau Syml. Dylai pob OoCD hefyd, lle bo'n briodol, a chyda chaniatâd, gefnogi llais y dioddefwr i gael ei glywed ac i fod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau, er enghraifft, y person a droseddodd i ymddiheuro ac ymgysylltu â rhaglen addysg i gefnogi adsefydlu (Gibson, 2021).

Fodd bynnag, mae nifer y gwahanol fathau o OoCD wedi'u beirniadu am fod yn rhy gymhleth ac y gallai dull OoCD symlach gynnig symlrwydd o ran cymhwysiad a defnydd i weithwyr proffesiynol ac i'r cyhoedd ehangach ei ddeall. Oherwydd y beirniadaethau hyn rhoddwyd prosiect peilot ar waith yn 2014 yn Lloegr i brofi dull dwy haen symlach gyda ffocws ychwanegol ar y rhai sy'n cael OoCD yn cymryd mwy o gyfrifoldeb a gweithredu gyda'u gorchmynion gwaredu. Symudodd Heddlu De Cymru i fodel dwy haen yn 2021 ond nid oedd hyn yn rhan o'r prosiect peilot yn Lloegr. Mae'r dull dwy haen yn debycach i ymarfer Cyfiawnder Adferol (RJ) a byddai llawer yn awgrymu ei fod yn herio achosion yr ymddygiad a'i fod yn ateb gwell i'r dioddefwr, y troseddwr, a'r gymdeithas (Bowen a Slade, 2020; Gibson, 2021) ac yn gwneud y dioddefwr yn fwy canolog i'r broses a'r system (Gibson, 2021).

Yn dilyn adolygiadau o'r rhaglen beilot a gwerthuso a dysgu parhau o safleoedd ychwanegol a brofodd y dull newydd, rhyddhaodd Llywodraeth y DU ei Phapur Gwyn, 'A Smarter Approach to Sentencing,' yn 2020 sy'n cynnig mabwysiadu'r fframwaith dwy haen yn genedlaethol ac mae'n sicrhau ymddangos mai dyma fydd yn digwydd yn 2023 ar adeg ysgrifennu'r adolygiad beirniadol hwn. Bydd y fframwaith cenedlaethol newydd hwn yn cyflwyno fframwaith dwy haen ar gyfer OoCD gan ddefnyddio rhybuddiad dargyfeiriol neu rybuddiad cymunedol. Mae'n debygol y bydd heddluoedd yn gallu parhau i ddefnyddio gwarediadau anstatudol fel y Penderfyniad Cymunedol. Bydd y rhybuddiad dargyfeiriol newydd yn disodli, ond mae'n debyg i'r rhybuddiad amodol, a bydd ganddo amod adsefydlu, gwneud iawn neu gosbol yn gysylltiedig ag amserlen a'r canlyniad fydd erlyniad os na chaiff ei gyflawni (Centre for Justice Innovation, 2022).

Felly, mae'r gwerthusiadau o'r defnydd o OoCD yn gyffredinol, a'r cynllun peilot fframwaith dwy haen newydd gan Ames et al (2018), Neyroud (2018), Gibson (2021), Cordis Bright (2019), a'r Centre for Justice Innovation (2022), a'r adolygiad o'r fframwaith rhybuddiad amodol diwygiedig gan Rowe et al (2022) yn awgrymu, er mwyn deall fframwaith OoCD dwy haen yn llawn a'i roi ar waith yn well ar draws pob maes plismona yng Nghymru a Lloegr, bod rhai ystyriaethau ac argymhellion allweddol i sicrhau gwell arferion a chanlyniadau ar gyfer yr holl randdeiliaid.

Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Cyfnod gweithredu o chwe mis o leiaf i gefnogi darpariaeth effeithiol.
2. Mwy o dryloywder ac atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau gan heddluoedd mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig dioddefwyr a throseddwy.
3. Seilwaith TG priodol a'r gallu i gefnogi sgrinio, monitro a dadansoddi cymhwysedd amserol ac effeithiol.
4. Ymgysylltu effeithiol, cynnwys dioddefwyr a chyfathrebu gyda hwy drwy gydol y broses ac ar ôl y canlyniad.
5. Adnoddau priodol ar gyfer yr heddlu a darparwyr ymyriadau i gyflawni llwyth gwaith uwch yn enwedig mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant, monitro cydymffurfiaeth, ac asesu achosion mwy cymhleth.
6. Gwerthusiadau Effeithiol gyda phob OoCD.
7. Gwell dealltwriaeth a monitro o effaith defnyddio OoCD gyda throseddwy Trais Domestig a throseddau casineb gyda sampl mwy o droseddwy i gynnig y cyfle ar gyfer dealltwriaeth mor fanwl.
8. Dulliau unigol wedi'u teilwra ar gyfer anghenion cymorth a newid cadarnhaol yn y rhai sy'n cymryd rhan.



Dadansoddiad manylach o raglenni dargyfeirio cyn-llys yn y CJS

Mae Gibson (2021) yn amlygu, pan roddir amodau adsefydlu, y gall leihau aildroseddu'n llwyddiannus ac mae'n cyfeirio at Brosiect CARA yn gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig yn Hampshire (Strang et al, 2017); Checkpoint yn Durham (Weir et al., 2021); a Turning Point yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr (Neyroud a Slothower, 2013). Mae Weir et al. (2021) yn tynnu sylw at yr adolygiad a gynhaliwyd gan Blakeborough a Pierpoint yn 2007 yn dangos bod ymyriadau cyn-llys gan ddefnyddio rhybuddiad amodol wedi cefnogi pobl a oedd wedi troseddu i fynd i'r afael ag achosion troseddu ar draws chwe heddlu'r DU. Canfu Towler (2017) fod dulliau dargyfeirio gan ddefnyddio arfer adferol gydag oedolion ifanc 18-25 oed yn ne Cymru yn llwyddiannus o ran herio ymddygiad troseddol a chefnogi anghenion ehangach yn ymwneud ag ACE. Canfu Holloway, Williams, a Brayford (2017) a Cordis Bright (2021 a 2022) hefyd o fewn cyd-destun Cymreig fod dull penodol i fenywod yn llwyddo'n dda i gefnogi dargyfeirio oddi wrth y CJS a chaiff hyn ei gynnwys yn yr adran benodol i fenywod yn nes ymlaen yn yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, canfu Wier et al (2021) fod yr ymchwil i asesu effeithiolrwydd cynlluniau rhybuddiadau a dargyfeirio yn y DU yn gyfyngedig iawn (Cefnogwyd gan Cordis Bright, 2019) a bod angen gwneud mwy i ddeall yn well sut a pham y gallai dulliau o'r fath weithio a nododd y Centre for Justice Innovation (2022) hyn hefyd yn eu canfyddiadau yn y maes gwaith hwn.

Wrth gyfeirio at ddealltwriaeth byd-eang arall o ble y defnyddir dulliau dargyfeirio ac erlyniadau gohiriedig hefyd, ymgwymerodd Harvey et al (2007) ag adolygiad systematig manwl o 20 o brosiectau, yr oedd 19 ohonynt yn ddargyfeirio, o astudiaethau yng Ngogledd America ac Awstralia. Cafodd Harvey et al. (2007: 385) fod rhai canlyniadau cadarnhaol o ran lleihau troseddu gan ddefnyddio modelau a dulliau o'r fath ond bod dealltwriaeth wirioneddol o sut a pham roedd rhaglenni o'r fath yn gweithio yn gyfyngedig oherwydd "ansawdd methodolegol gwael ac adrodd annigonol ar fanylion astudiaethau." Cyfyngiad ar y gwaith hwn gan Harvey et al. (2007) yw ei fod yn ystyried prosiectau dargyfeirio sydd wedi'u cyflawni gydag oedolion sydd â phroblemau defnyddio sylweddau yn unig. Mae Weir et al. (2021) yn cytuno ac yn datgan bod diffyg difrifol yn y diffyg astudiaethau meintiol sy'n cynnig dealltwriaeth gymharol rhwng dulliau dargyfeirio a mwy ffurfiol sydd â nodweddion carfan tebyg (oedran, ethnigrwydd, rhyw, ac ati) a'i fod yn her sylweddol i'r rhai sy'n ymwneud â datblygu polisi OoCD dargyfeirio ac adsefydlu effeithiol oherwydd ni ddeallir yn llawn beth sy'n gweithio a sut a pham y gallai weithio.

O adolygu a gwerthuso OoCD diweddar a rhaglenni dargyfeirio / ymyrraeth cyn-llys eraill mae rhai meysydd dysgu defnyddiol ar gyfer poblogaethau cyffredinol, sy'n golygu'r rhai sy'n cael eu dominyddu gan bobl o ethnigrwydd Gwyn Prydeinig ac yn bennaf yn ddynion. Mae nodweddion cyffredin y rhaglenni a adolygwyd yn cynnig peth cyffredinedd a meysydd dysgu i gefnogi datblygiad rhaglenni o'r fath yn y dyfodol. Mae'r nodweddion cyffredin a gefnogodd lwyddiant a chanlyniadau cadarnhaol mewn rhaglenni dargyfeirio neu argymhellion cyffredin a wnaed gan eu gwerthusiadau yn cynnwys:

1. Cysondeb arfer ar draws yr holl ddarpariaeth a bod rhwydwaith yn cael ei greu gyda phartneriaid darparu i rannu data, profiadau, arfer da, monitro a gwerthuso.
2. Mae angen perthnasoedd partneriaeth cryf i gyflawni prosiectau dargyfeirio cyn-llys yn effeithiol, yn enwedig rhwng yr Heddlu a darparwyr ymyriadau a ddylai weithio'n agos wrth wneud penderfyniadau ac asesu cymhwyster cleientiaid.
3. Mae prosesu dargyfeirio cyn-llys yn gyflym yn hanfodol i gefnogi ymrwymiad cleientiaid a chymhelliant i ymgysylltu.
4. Mae angen codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant o ansawdd uchel ar gyfer pob partner i gefnogi dealltwriaeth a datblygiad y sgiliau sydd eu hangen i gefnogi'r dull gweithredu a'r model ymarfer. Mae hyn yn arbennig o bwysig i staff yr Heddlu sydd wedi arfer gweithio o fewn prosesau erlyn mwy cosbol a ffurfiol ac sy'n llai cyfarwydd â gweithio mewn dulliau mwy therapiwtig sy'n cael eu harwain gan anghenion, ac mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar ddulliau cyfiawnder adferol.
5. Dylai hyfforddiant gael ei gyd-gynhyrchu a'i ddarparu gan y rhai sydd â phrofiadau uniongyrchol o'r CJS a dulliau cyn-llys.
6. Dylai arferion dargyfeirio cyn-llys geisio meithrin perthnasoedd cadarnhaol cryf gyda chleientiaid ar adeg eu harestio a thrwy gydol eu hymwneud â'r prosiect. Dylid canolbwyntio ar ddatblygu cydymddiriedaeth a pharch, modelau rôl

cadarnhaol gan yr ymarferydd ac ymyriadau sy'n cefnogi trafodaeth i gynyddu hunan-asantiaeth, dewis gwybodus, datblygu datrys problemau a defnyddio arfer wedi'i lywio gan drawma. Ni ddylid gwneud i gleientiaid deimlo'r stigma a'r label niweidiol o 'fod yn droseddwr' ac yn hytrach mae'r prosiect yn ymwneud â'u cefnogi i fyw bywydau iachach a mwy cadarnhaol.

7. Dylai cynlluniau ymyrraeth a chymorth cyn-llys gael eu harwain gan ymarferwyr sy'n annibynnol ar y CJS sy'n gweithio gyda chleientiaid i ddatblygu cymorth i ddiwallu eu hanghenion ac ni ddylent greu cynlluniau sy'n rhy feichus ac sydd â nifer fawr o amodau. Ymddengys bod tri i bedwar amod yn ddull cyffredin a defnyddiol.
8. Dylai ymyriadau gael eu teilwra'n unigol ac mae eu hangen yn gyffredin i gefnogi profiadau negyddol yn ymwneud ag iechyd meddwl, defnyddio sylweddau, perthnasoedd nad ydynt yn iach, rheoli emosiwn ac ymddygiad, ACE, llesiant cyffredinol.
9. Dylai ymyriadau ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau darparu gan gynnwys cymorth un i un, atgyfeirio at wasanaethau cymorth, gweithdai grŵp, cymorth ymyrraeth ar-lein.
10. Mae angen i ddulliau Cyfiawnder Adferol sicrhau bod y dioddefwr yn cael ei gynnwys yn effeithiol drwy gydol ymgysylltiad y cleient sydd wedi troseddu. Mae angen i ddioddefwyr deimlo bod rhywun yn gwrandao arnynt, eu bod yn cael eu clywed, a bod ganddynt rywffaint o ddewis a rheolaeth dros y broses a'r amodau a osodir ar gyfer y cleient.
11. Mae angen ymchwil empirig o ansawdd uchel ar gyfer prosiectau dargyfeirio cyn-llys yn y dyfodol fel y gellir defnyddio gwersi dibynadwy ar gyfer prosiectau yn y dyfodol a rhaid i hyn gynnwys profiadau ac anghenion pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a nodweddion gwarchodedig eraill megis crefydd, oedran, rhyw, LHDTQIA+, ac yn benodol hunaniaethau traws.

Diffyg safbwyntiau lleiafrifoedd ethnig o fewn llenyddiaeth dargyfeirio cyn-llys

Fodd bynnag, mae'n amlwg mai beirniadaeth fawr o'r ymyriadau cyn-llys uchod yw nad yw eu gwerthusiadau eu hunain yn dadansoddi profiadau lleiafrifoedd ethnig o'u rhaglenni dargyfeirio mewn gwirionedd (Bennett a Corry-Roake, 2021). Mae'r diffyg persbectif lleiafrifoedd ethnig yn wir am bobl o leiafrifoedd ethnig yn ehangach ac o ran grwpiau lleiafrifoedd ethnig penodol megis menywod a phlant, yn enwedig merched ifanc. Mae diffyg dealltwriaeth a chymorth a gwasanaethau priodol yn anfon pobl o leiafrifoedd ethnig yn ddyfnach i'r CJS (Wang, 2023) ac nid yw'n syndod bod rhywfaint o wahaniaeth yn gwaethygu (Bhattacharya, 2021), mae'n sicr yn dangos y gwynder y mae'r CJS yn gweithredu oddi mewn iddo ac yn flanced o wynder fel eira, fel y'i nodwyd yn farddonol gan Eddo-Lodge (2017).

Mae'r reality fod rhaglenni dargyfeirio yn methu i fodloni anghenion lleiafrifoedd ethnig neu hyd yn oed yn eu hystyried mewn adroddiadau dim yn newydd a chynigiodd NACRO yn 2009 ganllaw defnyddiol a beirniadol ar gyfer datblygu gwasanaethau priodol ar gyfer pobl o leiafrifoedd ethnig sy'n ymwneud â rhaglenni dargyfeirio o'r fath; mae'n ddiddorol bod eu hargymhellion yn dal i fod â hygredded ac angen yn 2023, 14 mlynedd ar ôl ei gyhoeddi. Gellid dadlau bod y wybodaeth i newid arfer a bod yn gynhwysol ac yn wrth-hiliol wedi bodoli ers amser maith ond nid yw'r CJS wedi gwrandao ac wedi cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau ei fod yn dod yn realiti.

Mae'r argymhellion canlynol i gefnogi ymarfer gyda, a datblygiad priodol gwasanaethau ar gyfer, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ac mae'r rhain wedi'u cyfuno o HMCIP (2022) a Bhattacharya (2021) ond maent yn dal yn bennaf o adroddiad NACRO (2009):

1. Gweithlu amrywiol sy'n adlewyrchu'r grwpiau y mae'n eu gwasanaethu.
2. Mae addysg a hyfforddiant yn canolbwyntio ar ddatblygu cymhwysedd diwylliannol ac ymarfer gwrth-hiliol, ac mae'n cynnwys sut mae ethnigrwydd yn aml yn croestorri ag oedran penodol (plant ac oedolion ifanc), crefydd ac iaith.
3. Mae perthnasoedd â chleientiaid yn canolbwyntio ar ddatblygu ymddiriedaeth, parch a gonestrwydd trwy sgysiau diwylliannol gymwys lle mae cleientiaid yn teimlo y gallant eu datgelu a bod yn onest am eu profiadau a'u hanghenion.
4. Mae asesu anghenion yn ystyried hunaniaeth ddiwylliannol a chrefyddol unigolyn.
5. Mae asesu risg yn wrthrychol ac nid yw hil ac ethnigrwydd yn cael eu gweld fel arwydd o berygl.
6. Datblygir perthnasoedd effeithiol gyda gwasanaethau dehongli / iaith.
7. Cofnodi a monitro ethnigrwydd, iaith, a ffydd fel y gellir cyflawni dadansoddiad i gefnogi dealltwriaeth.
8. Gwneir rhwydweithiau a phartneriaethau effeithiol gyda gwasanaethau amrywiol ac arbenigol sy'n bodloni anghenion pobl o leiafrifoedd ethnig a chyflawnir atgyfeiriadau a rhannu gwybodaeth.
9. Cyfathrebu sefydliad cyfan effeithiol gyda'r holl bartneriaid ar waith, arfer gorau ac arweiniad.
10. Codi ymwybyddiaeth a meithrin ymddiriedaeth o fewn grwpiau a chymunedau lleiafrifoedd ethnig.



Cefnogi a chwrdd ag anghenion menywod yn y CJS ac yn fwy penodol y rheini o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig o fewn y defnydd o ddargyfeirio ac ymyrraeth cyn-llys.

Canfu adroddiad Corston (2007) fod menywod yn fwy tebygol o gael eu harestio am fân droseddau na dynion, ac o gael eu dedfrydu am droseddau tro cyntaf na dynion, yn ogystal â bod yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr trosedd na dynion. Er eu bod ond yn cyfrif am 14% o'r bobl a arestwyd, 15% a gefnogir drwy'r gwasanaeth prawf a 5% yn y carchar yn 2018/19 mae menywod yn dal i fod yn un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed yn y CJS (Centre for Justice Innovation, 2019). Yn gyffredinol, mae menywod wedi cael eu trin yn llymach gan y CJS na dynion ac roedd canfyddiadau ac argymhellion adroddiad Corston yn awgrymu bod angen dulliau penodol i fenywod o fewn y CJS.

Rhyddhaodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder Strategaeth Troseddwy Benywaidd y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018) sy'n defnyddio'r argymhellion o adroddiad Corston (2007) ac sy'n canolbwyntio ar leihau nifer y menywod yn y ddalfa drwy ddefnydd cynyddol o ymyriadau cymunedol, a datblygu cymorth mwy priodol i fenywod yn y ddalfa sy'n canolbwyntio ar deulu, lleihau hunan-niweidio, a chymorth ar drosglwyddo yn ôl i'r gymuned ar ôl rhyddhau. Fodd bynnag, daw'r swyddfa archwilio genedlaethol (2022) i'r casgliad nad yw'r CJS yn ymateb nac yn cefnogi anghenion menywod yn y system o hyd.

O fewn cyd-destun Cymreig, cyhoeddwyd Glasbriant Cyfiawnder i Fenywod Cymru ar y cyd rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru yn 2019 a dyma'r prif fecanwaith cyflawni ar gyfer y blaenoriaethau yn Strategaeth Troseddwy Benywaidd y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018) gyda ffocws/dull gweithredu wedi'i amlygu'n benodol ar ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Nod y Glasbriant (2019: t1) yw mynd i'r afael â'r her o ddatblygu a darparu dull cydgysylltiedig o roi cymorth i fenywod yng Nghymru sy'n 'cydnabod anghenion rhyw-benodol menywod, yn hyrwyddo llesiant cadarnhaol ac yn cefnogi canlyniadau hirdymor llwyddiannus i leihau aildroseddu.' Prif feysydd ffocws y Glasbriant yw: lleihau nifer y menywod yn y system drwy wella ymyrraeth gynnar, atal, a chymorth dargyfeiriol; darparu dewisiadau amgen i'r ddalfa a gwell cymorth cymunedol megis y ganolfan breswyl i fenywod; a gwella dealltwriaeth o anghenion menywod trwy dystiolaeth gadarn a helpu i wella hyder dedfrydwyr mewn dedfrydau cymunedol. Mae heriau i hyn oherwydd nad oes carchar i fenywod yng Nghymru, felly mae menywod yn nodweddiadol yn cael eu cadw mewn carchardai a all fod gryn bellter oddi wrth eu teuluoedd a'u rhwydweithiau cymorth. Gall hyn hefyd gymhlethu ymhellach y profiadau o adsefydlu ac ailintegreiddio yn dilyn cyfnod o garcharu i fenywod sy'n byw yng Nghymru.

Yng Nghymru fodd bynnag, mae dilyniant arfer da yn gryfach gan ei fod yn cyflawni drwy'r Glasbriant a bu rhywfaint o gynnydd defnyddiol ers ei gyhoeddi. Bu cynnydd da o ran cryfhau opsiynau cymunedol i fenywod, yn enwedig bod cynlluniau dargyfeirio ar waith ar draws pob un o'r pedair ardal heddlu yng Nghymru a'r defnydd o wasanaeth dull system gyfan i fenywod ledled de Cymru a Gwent. Er gwaethaf strategaeth Glasbriant glir, mae bylchau o hyd o ran deall profiadau ac anghenion menywod yn ehangach a hyd yn oed yn fwy felly ar gyfer menywod a merched o leiafrifoedd ethnig o fewn y CJS a'r YJS.

Wrth ddadansoddi'r themâu o'r llenyddiaeth sydd ar gael yn Easton et al (2010), The National Offender Management Service (2015), The Tavistock Institute (2019), The Centre for Justice Innovation (2019), prosiect Footprints (2020), Advance (2021), prosiect SHE (2022), Sheeran (2022), Holloway, Williams, a Brayford (2017); a Cordis Bright (2021 a 2022) mae rhai argymhellion a dealltwriaethau clir ar gyfer datblygu prosiectau dargyfeirio menywod yn y dyfodol sy'n werth eu nodi gan gynnwys yr angen am:

1. Polisi a dull gweithredu cenedlaethol gyda llywodraethu clir i sicrhau darpariaeth leol mewn partneriaeth â chanolfannau menywod a sefydliadau menywod arbenigol sy'n gydgysylltiedig drwy'r Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a Sefydliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd y Cyhoedd).
2. Arweinyddiaeth amlwg gan Brif Swyddogion yr Heddlu a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau.
3. Dyraniad adnoddau cynyddol a hirdymor i greu cynaliadwydd ac effaith a newid hirdymor.
4. Ehangu'r meini prawf ar gyfer mynediad i fenywod fel hyd yn oed os cânt eu cyhuddo neu eu bod o dan ymchwiliad maent yn derbyn y cymorth cymunedol sydd ei angen arnynt a bod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud gan asiantaethau partner, gwasanaethau cymunedol ehangach, a chefnogi hunan-atgyfeirio. Mae'n bwysig na all menywod 'fethu' rhaglen a'u bod yn cael sawl ymgais a chefnogaeth.
5. Addysg a hyfforddiant rheolaidd o ansawdd uchel ar ddulliau sy'n cael eu harwain gan anghenion, wedi'u cyd-gynhyrchu, sy'n

benodol i rywedd ac wedi'u llywio gan drawma o gefnogi menywod yn ogystal â chefnogi anghenion menywod â nodweddion gwarchodedig eraill fel ethnigrwydd, oedran, crefydd, rhywioldeb, a materion yn ymwneud ag ehangu rhwydi a chynyddu tariffau er mwyn lleihau'r effeithiau i swyddogion, swyddogion adolygu, ynadon, a darparwyr y sector gwirfoddol.

6. Canllawiau clir ar gyfer Gwasanaeth yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, ac unrhyw bartner arall sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau a sut i'w ddefnyddio gydag amodau eraill a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gyson, yn enwedig yn ystod cyfnodau o bwysau a llwythi gwaith uchel (pan all gwneud penderfyniadau fod yn ddiffygiol neu pan fydd pobl yn cymryd y llwybr 'cyhuddo' hawdd i arbed amser).
7. Deall bod anghenion menywod yn gymhleth er gwaethaf troseddau lefel isel yn aml ac yn gyffredin yn cynnwys cymorth sy'n ymwneud â heriau iechyd meddwl gwael, cam-drin, trais domestig, llesiant, materion tai, problemau ariannol, defnyddio sylweddau, diffyg addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, sgiliau rhianta negyddol, a bod yn ddarparwr gofal sylfaenol neu'n unig ofalwr.
8. Adnoddau i weithwyr allweddol arbenigol a gweithgareddau i ddiwallu anghenion cymhleth ac uchel (yn enwedig iechyd meddwl) ond nid i 'orddosio' menywod ag ymyriadau a chymorth bygythiol a rhy ddwys. Bod gweithwyr allweddol yn annibynnol ar y CJS ac yn aml wedi'u lleoli o fewn dalfeydd i gefnogi penderfyniadau effeithiol ar gyfer dargyfeirio cyn-llys ac arwain ar gydgynhyrchu cynllun ymyrraeth â menywod.
9. Datblygu a/neu weithio gyda sefydliadau arbenigol sy'n cefnogi'r rheini o grwpiau ymylol, megis menywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, y rheini â chredoau crefyddol, ac unigolion a grwpiau LHDTQIA+.
10. Hyrwyddwr menywod dynodedig i weithio ochr yn ochr â phob asiantaeth/rhanddeiliad sydd â chyswllt rheolaidd â dalfeydd (bob dydd) i wirio a chodi ymwybyddiaeth gyda swyddogion ac ymweliadau â dalfeydd i siarad â menywod yn y ddalfa (ddwywaith yr wythnos).

11. Ymgorffori ymarfer a gwasanaethau cyfannol, wedi'u llywio gan drawma, ac sy'n benodol i fenywod sy'n meithrin ymddiriedaeth, parch, diogelwch, a mwy o hunan-asantiaeth a myfyrdod i gefnogi grymuso a phenderfyniadau bywyd gwybodus a bywydau iach ac nad ydynt yn troseddoli nac yn stigmatiddio menywod ymhellach.
12. Strategaeth gyfathrebu wedi'i hanelu at fenywod o fewn y CJS, y rhai sy'n gweithio yn y CJS, a gwasanaethau cymorth eraill yn y gymuned ehangach i godi ymwybyddiaeth.
13. Dull data 'defnyddiwr-gyfeillgar' fel y gellir cyflawni dealltwriaeth a dysgu effeithiol a bwydo'n ôl i'r dull ar gyfer datblygiad parhaus.
14. Ymchwil pellach i anghenion menywod o grwpiau ymylol gan gynnwys y rheini o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, cefndiroedd crefyddol, a'r rhai sy'n LHDTQIA+.

Fodd bynnag, nid yw unrhyw ran o'r naratif uchod yn trafod anghenion na phrofiadau'r menywod o leiafrifoedd ethnig a fu'n ymwneud â'r prosiectau. Mae'r argymhellion ar gyfer ymarfer yn y dyfodol felly yn ddefnyddiol ond nid ydynt yn rhoi'r profiadau, yr anghenion a'r datblygiadau mewn ymarfer sy'n ffocws i'r adolygiad llenyddiaeth hwn yn benodol mewn cyd-destun. Yn wir, mae'r llenyddiaeth sydd ar gael ar brofiadau menywod o leiafrifoedd ethnig o ddargyfeirio ac ymyrryd cyn-llys gan gynnwys defnyddio OoCD yn gyfyngedig iawn ac nid yw bron yn bodoli o fewn persbectif y DU (Sheeran, 2022).

Er gwaethaf y diffyg llenyddiaeth benodol ar ddargyfeirio yn ymwneud â phrofiadau menywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, mae rhai ffynonellau llenyddiaeth defnyddiol iawn yn dod i'r amlwg gan ystod o academyddion (gan gynnwys yn arbennig gwaith Hargons et al, 2022; Imkaan, 2016, Kanakam, 2022 ; Naz et al, 2019; Thomas, 2021; a Williams, 2021). O ddadansoddi a chyfuno'r themâu yn yr adran hon mae meysydd dysgu clir ac argymhellion ar gyfer datblygu ymarfer sy'n bodloni anghenion a phrofiadau menywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn well; gellir dadlau y gellir cymhwyso'r rhain yn uniongyrchol i ddulliau dargyfeirio a chyn-llys yng Nghymru. Mae'r gwersi a'r argymhellion fel a ganlyn:

1. Mae defnydd iaith a therminoleg yn bwysig ac mae ethnigrwydd yn unigryw i bob unigolyn ac felly nid yw defnyddio labeli ymbarél fel BAME yn briodol. Mae'r defnydd o 'leiafrifoedd hiliol ac ethnig' 'cymunedau hil' a 'phobl groenliw a grwpiau ymylol eraill' yn cael ei ffafrio'n gyffredinol gan ei fod yn dylsu hunaniaeth hiliol / ethnig lluosog ac nid yw'n hierarchaidd. Fodd bynnag, mae dod i adnabod menywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a'u dewis iaith a therminoleg yn arfer gorau ac mae'n dangos i fenywod eich bod yn defnyddio arfer cynhwysol ac ystyriol.
2. Mae deall ac ymateb i straen ar sail hil, trawma hiliol, a gwybod bod hiliaeth yn fath o drawma yn ganolog i greu amgylchedd iachaol sy'n ystyried anghenion, profiadau, ffiniau a disgwyliadau menywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mae angen i ymarferwyr ddeall hefyd sut mae rhywedd, ethnigrwydd, a hunaniaethau eraill fel crefydd, rhywioldeb, oedran a dosbarth i gyd yn croestorri i gefnogi creu dulliau cymorth unigolyddol

3. Mae angen ymarferwyr sy'n ddiwylliannol gymwys a gwrth-hiliaeth sy'n gallu gwrandao, trafod, a hwyluso sgysiau ar hil, ethnigrwydd, diwylliant, hiliaeth, a thrawma hiliol, yn ogystal â hunaniaethau eraill yn gyfforddus ac sy'n gallu dangos bod ganddynt ddiddordeb mewn cefnogi menywod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a'u holl hunaniaethau - mae hyn yn hynod o bwysig ar gyfer meithrin perthnasoedd ac er mwyn i fenywod deimlo'n ddiogel, yn agored ac yn onest ac ymgysylltu'n llwyddiannus â'r cymorth a ddarperir.
4. Mae angen addysg a hyfforddiant effeithiol a pharhaus ar bob ymarferydd, ond yn enwedig ymarferwyr Gwyn Prydeinig ar fod yn ddiwylliannol gymwys ac yn wrth-hiliol yn eu hymarfer fel y gallant gefnogi menywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn effeithiol a pheidio ag osgoi trafodaethau ar sail diffyg gwybodaeth ac ofn a phryder ynghylch 'gwneud pethau'n anghywir'
5. Creu model a diwylliant ymarfer adfyfyriol ym mhob sefydliad i gefnogi trafodaeth adfyfyriol hyderus gyda chydweithwyr, timau, a goruchwylwyr ar gymhwysedd diwylliannol a gwrth-hiliaeth a chefnogi menywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Y nod yw creu 'ymarfer adfyfyriol diwylliannol' a dull dysgu gydol oes o weithio ochr yn ochr â menywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ac ymdrin â hyn gyda 'gwyleidd-dra diwylliannol'.
6. Canllawiau ymarfer i ymarferwyr a gwasanaethau cymorth ehangach yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd ehangach ar lefel genedlaethol i gefnogi newid ar draws y system a chred yn y system
7. Nodi a/neu ddatblygu gwasanaethau arbenigol i fenywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig fel eu bod yn cael eu cefnogi'n effeithiol ac yn briodol mewn argymhellion blaenorol
8. Mwy o adnoddau ar gyfer datblygu a chyllid parhaus ar gyfer gwasanaethau arbenigol i fenywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig fel nad ydynt i gyd wedi'u homogoneiddio gyda'i gilydd

9. Dylai'r rhai sydd â phrofiadau uniongyrchol adolygu a gwerthuso gwasanaethau cyfredol ac arwain datblygiad gwasanaethau a dulliau gweithredu priodol newydd, gan gynnwys addysg a hyfforddiant ymarferwyr
10. Mae angen mwy o ymchwil ar gyd-destunau lleol fel bod gwasanaethau'n cael eu datblygu i ddiwallu anghenion a phrofiadau lleol a chefnogi ymgysylltu ac ymatal dargyfeirio yn well
11. Mae angen cynrychiolaeth gweithlu amrywiol fel ei fod yn adlewyrchu'r bobl sy'n cael eu cefnogi ac felly mae angen cynyddu ymarferwyr lleiafrifoedd ethnig sy'n gweithio mewn dulliau dargyfeirio a chyn-llys a'r CJS ehangach



Profiadau plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig o'r YJS a dargyfeirio.

Amlinellodd Glasbriant Cyfiawnder i Ieuenctid Cymru (2019) nodau i ddatblygu YJS sy'n drawsnewidiol ac yn gydgysylltiedig, lle mae rhanddeiliaid allweddol yn cydweithio i sicrhau bod y system yn trin plant â pharch a thegwch ac yn cefnogi newid cadarnhaol ac yn cefnogi plant i fyw heb droseddu, teimlo'n ddiogel, a meddu ar lesiant cadarnhaol. Mae Case a Browning (2021) yn ychwanegu at hyn ac yn cynnig dull 'plentyn yn gyntaf' sydd bellach wedi'i fabwysiadu gan Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr yn eu strategaeth (2021). Oherwydd yr ymrwymiad hwn i ddull plentyn yn gyntaf a bod unrhyw un o dan 18 oed yn cael ei ddiffinio fel plentyn gyda'r dull hwn, bydd y term 'plentyn' yn cyfeirio at unrhyw un o dan 18 oed yn yr adran hon. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod gwaith ieuenctid, sy'n broffesiwn sy'n perthyn yn agos, yn labelu eu gwaith fel gweithio gyda phobl ifanc 11-25 oed a bod unrhyw un o fewn yr ystod oedran hwn yn berson ifanc a bod Cyfiawnder Ieuenctid hyd yn oed yn defnyddio'r gair 'ieuenctid' o fewn ei label ei hun, fel y mae cymaint o'r llenyddiaeth ar 'ddargyfeirio ieuenctid.' Mae hefyd yn agor dadleuon ehangach ynghylch a ddylai pobl ifanc yn y cyfnod pontio at fod yn oedolion rhwng 18 a 25 oed gael dulliau gweithredu ar wahân sy'n canolbwyntio mwy ar y plentyn hefyd, ond mae hyn y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn.

Mae Case a Browning (2021) yn cynnig y dylai'r YJS fod yn 'plentyn yn gyntaf'; dylai weld plant fel plant a diwallu eu hanghenion; cefnogi plant i ddatblygu hunaniaeth cymdeithasol cadarnhaol; cydweithio gyda phlant ac ar eu cyfer; a hyrwyddo dargyfeirio oddi wrth y stigma o fod mewn cysylltiad â'r system. Mae Case et al (2022) yn dadlau mai'r her fwyaf a mwyaf enbyd i Gyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru a Lloegr yw gwneud i'r daliadau plentyn yn gyntaf brif ffrydio mewn ymarfer cyson ac nid bod yn gysyniad polisi a strategol yn unig. Mae Llywodraeth Cymru (2022) yn cydnabod bod angen newid diwylliannol o fewn y system a datblygu dull gweithredu nad yw'n gosbol, nad yw'n troseddoli'r rhai a oedd yn derbyn gofal, sy'n defnyddio dull plentyn-yn-gyntaf, ac sy'n deall profiadau plant a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig mewn perthynas â dargyfeirio cyn-llys yn well.

Wrth gyfuno'r drafodaeth a'r cynnwys o'r llenyddiaeth allweddol (Harris a Goodfellow, 2022; HMIP, 2022; Jones a Henry, 2022; Traverse 2023; a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2020), mae angen datblygiad a dealltwriaeth mewn nifer o feysydd allweddol, ac mae'r adolygiad hwn yn amlygu'r dysgu cyffredin a'r argymhellion ar gyfer ymarfer a pholisi:

1. Defnyddir dull plentyn yn gyntaf lle y gwelir plant fel plant a diwallir eu hanghenion, y cefnogir plant i ddatblygu hunaniaeth cymdeithasol cadarnhaol, cydweithir gyda phlant ac ar eu cyfer, a cheir hyrwyddo dargyfeirio oddi wrth stigma a chysylltiad â'r CJS.
2. Mae angen addysg, hyfforddiant ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel sy'n datblygu gweithlu, diwylliant ac ymarfer sy'n ddiwylliannol gymwys ac yn wrth-hiliol.

3. Defnydd cynyddol a chyson o ymarfer wedi'i lywio gan drawma / ymyriadau therapiwtig sy'n cefnogi datblygiad plentyn a dealltwriaeth bod trawma yn cyfaddawdu, yn oedi, neu'n amharu ar ddatblygiad emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol plant a bod profiadau trawma yn gyffredin i blant sy'n ymwneud â'r YJS a'r CJS.
4. Mae ffocws ar feithrin perthynas â phlant yn ganolog i'w hymddiriedaeth a'u hymgysylltiad ag ymyriadau a dylai fod yn seiliedig ar ymddiriedaeth, dealltwriaeth ac empathi, uniondeb, amynedd, parch, dewis, cyfranogiad, grymuso, a dull cyfannol sy'n cael ei arwain gan anghenion. Ystyrir bod y sgiliau a'r dulliau hyn yn bwysicach nag ethnigrwydd gweithiwr cyfiawnder ieuenctid o safbwynt y rhan fwyaf o blant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a byddant yn cefnogi ymgysylltiad ac ymrwymiad uwch i nodau hirdymor cadarnhaol.
5. Mae gan blant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig gyfraddau a phrofiadau sylweddol uchel o waharddiad o'r ysgol, camfanteisio, gwahaniaethu ar sail hil, cynlluniau gofal a chymorth neu gynlluniau amddiffyn; yn ogystal â bod â chyfraddau uchel o anabledd, profiadau addysg ac iechyd gwael, a bod ag anghenion addysgol penodol heb eu nodi. Mae yna hefyd gyfraddau uchel o drais a chwalfa teuluol, amddifadedd cymdeithasol uchel, a thrawma hiliol yn sgil ymgysylltu â'r CJS. Felly mae plant o'r fath yn profi ACE lluosog ac mae ganddynt lefelau uchel o iechyd meddwl negyddol a llesiant isel gydag anghenion uchel a chymhleth. Mae'r cymhlethdodau, y rhwystrau a'r heriau cynyddol hyn yn gofyn am fwy o ystyriaeth a mynediad at wasanaethau cymorth a mwy o gymorth i gael mynediad at wasanaethau priodol.
6. Mwy o ymchwil i ddeall yn well brofiadau plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig o ddarpariaeth cyn-llys a dargyfeirio.
7. Mae'n ymddangos bod cyfraddau aildroseddu is yn cael eu cefnogi mewn ymyriadau dargyfeirio os oes gan blant agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, cyflogaeth, ffrindiau, teulu, a rhianta ac felly

dylai ymyriadau ganolbwyntio ar ddatblygu'r nodweddion hyn.

8. Mae plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn wynebu arwahanrwydd sylweddol, hiliaeth, ac anghymesuredd yn y CJS a'r gymdeithas ehangach ac yn ymgysylltu llai â chyfleoedd dargyfeirio oherwydd diffyg ymddiriedaeth yn y system ac mae hyn wedi cynyddu yn ystod Pandemig Covid-19. Mae angen ymgysylltu â grwpiau a chymunedau gan gynnwys dulliau teuluol er mwyn goresgyn y diffyg ymddiriedaeth yn y CJS.
9. Dylai Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid herio'r hiliaeth y mae plant o leiafrifoedd ethnig yn ei brofi mewn perthynas â phroffilio hiliol, stopio a chwilio, eu trin fel oedolion, a thriniaethau llymach gan y system.
10. Mae angen gwasanaethau arbenigol sy'n diwallu anghenion plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn benodol ac sy'n cefnogi eu hanghenion gan gynnwys profiadau dylanwad a phwysau gan gyfoedion. Dylid cyd-greu gwasanaethau arbenigol gyda phlant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.
11. Mae angen mwy o ymchwil i ddeall pam a beth sy'n achosi gor-gynrychiolaeth yn y system a datblygu data clir, cyson a manwl ar gyfer dargyfeirio fel y gellir olrhain canlyniadau dros amser ar gyfer plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (a hunaniaethau ymylol eraill).
12. Mae angen i ddulliau'r YJS sicrhau gweithio rhyngasiantaethol agos a rhannu gwybodaeth a systemau er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y cyd a model system gyfan o ymarfer cyfannol wedi'i lywio gan drawma sy'n cefnogi plant ag anghenion cymhleth ac sy'n rhoi caniatâd, eglurder, a pha mor berthnasol yw'r ymyriad a gynigir.
13. Mae angen cynnydd yn amrywiaeth ethnig y gweithlu fel ei fod yn adlewyrchu'r plant y mae'n eu cefnogi.

Dealltwriaeth o arferion Dargyfeirio cyn-llys gyda phlant a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig

Canfu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (2023) fod angen mwy o weithio mewn partneriaeth gyda gweledigaeth a rennir er mwyn cefnogi dargyfeirio'n effeithiol a bod rhai enghreifftiau da o arfer o'r fath yn ymwneud â'r heddlu, iechyd, addysg, gwasanaethau plant, llysoedd, a darparwyr ehangach lle roeddent i gyd wedi defnyddio ymarfer plentyn yn gyntaf seiliedig ar hawliau. Fodd bynnag, canfu'r adroddiad hefyd fod gan ddulliau atal a dargyfeirio gyllid anghyson, ansawdd ymarfer amrywiol, cyfleoedd wedi'u colli i'w defnyddio oherwydd rhannu gwybodaeth yn wael, canllawiau wedi'u dyddio o ran arfer da, ansawdd a chasglu data gwael, a diffyg cysondeb llywodraethu cenedlaethol a lleol. Mae'r themâu hyn yn gyson ag ymchwil cynharach mewn cyd-destun Cymreig gan Williams a Llywelyn (2016) a werthusodd Biwro Cyfiawnder Ieuencid Dyfed-Powys. Nodwyd themâu tebyg o arfer da ond nodwyd anghenion am well hyfforddiant ymhlith yr Heddlu i adnabod cyfleoedd atgyfeirio i Gyfiawnder Ieuencid ac ymyriadau cynnar yn well, yn ogystal â rhannu gwybodaeth yn well gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid. Canfuwyd hefyd y gallai fod mwy o ddefnydd o atgyfeirio i Wasanaethau Troseddau Ieuencid a thrafodaeth fwy proffesiynol gydag ymarferwyr troseddwy'r ifanc ar achosion atgyfeirio ffiniol. Yn ddiddorol, nid yw'r naill adroddiad na'r llall yn sôn am ddiwallu anghenion na phrofiadau plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Yn wir, argymhellodd Canolfan Polisi ac Ymarfer Cymru (2021) fod angen rhoi mwy o flaenoriaeth ac adnoddau i ymchwilio i ffactorau sy'n dylanwadu ar blant sy'n troseddu o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a gwahaniaethau mewn dealltwriaeth ar draws gwahanol grwpiau lleiafrifoedd ethnig ac mae hwn yn ymddangos yn fater i wledydd y Gorllewin (The Sentencing Project, 2022). Ymhellach, maent yn datgan y dylid defnyddio ymchwil o'r fath i arwain datblygiad cynlluniau atal a dargyfeirio priodol ar gyfer plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (mae'r adolygiad hwn yn rhan o'r gwaith

hwnnw). Daw Gaffney et al (2022a) i'r casgliad bod dealltwriaeth annigonol o'r ymchwil ar ddargyfeirio a bod angen gwneud mwy i gael dadansoddiad hyderus o'r hyn sy'n gweithio ym maes dargyfeirio a pham ei fod yn gweithio.

Mae'r ymchwil a'r llenyddiaeth ar brofiadau, a chefnogi plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig o fewn dargyfeirio cyn-llys yn gyfyngedig mewn rhai agweddau (mae llenyddiaeth ddefnyddiol yn cynnwys; Banwell-Morre, 2022; Fitzpatrick et al, 2022; Gaffrey et al, 2021 a 2022; a Jones a Henry, 2022) ond mae meysydd dysgu clir ac argymhellion i arwain ymarfer dargyfeirio yn y dyfodol, sef:

1. Mae angen cytundeb adnoddau tymor hir ar gyfer gwaith dargyfeirio ar lefel genedlaethol i liniaru'r pwysau ar YOS nad ydynt yn gallu bodloni gofynion uchel yn gynyddol.
2. Diffiniad, canllawiau a model cenedlaethol ar gyfer dargyfeirio plant fel bod darpariaeth a phrofiadau o ansawdd uchel yn gyson.
3. Yr angen am waith partneriaeth cryf ar draws asiantaethau lluosog gyda gweledigaeth a rennir, rhannu gwybodaeth / data, a gwneud penderfyniadau ar y cyd i ymgorffori dull system gyfan gyda'r Heddlu, YOS a darparwyr ymyrraeth yn gweithio'n agos gyda'i gilydd.
4. Addysg a hyfforddiant i adnabod cyfleoedd atgyfeirio ar gyfer dargyfeirio yn well ac i gefnogi asesiad priodol o risg ac atal cynyddu risgiau plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.
5. Ymchwil i ffactorau sy'n dylanwadu ar droseddu gan blant o leiafrifoedd ethnig ac ar draws gwahanol grwpiau lleiafrifoedd ethnig a bod hyn yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu rhaglenni ac ymyriadau dargyfeirio priodol.
6. Gall dargyfeirio plant Adeg Arestio gynnig y dull mwyaf effeithiol a moesegol o weithredu gan fod plant yn cael eu dargyfeirio oddi wrth effeithiau niweidiol ymgysylltu â'r YJS a'r CJS gan fod hyd yn oed OoCD yn brosesau ffurfiol y gellir dadlau eu bod yn labelu ac yn stigmatiddio plant ac yn peryglu eu cyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn y dyfodol.

7. Yr angen am feini prawf cymhwysedd eang a chynhwysol gyda chyfleoedd lluosog i ymgysylltu, dim angen cyfaddef euogrwydd, a dylent ddeall yn llawn a chydysynio i ddargyfeirio. Byddai hyn yn cefnogi plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn well i ymgysylltu â dargyfeirio gan eu bod yn fwy tebygol o gael eu harestio, derbyn trosedd, a pheidio â chyfaddef euogrwydd na phlant Gwyn, felly mae angen meini prawf dargyfeirio mwy cynhwysol oherwydd yr anghymesuredd hwn.
8. Mae angen i asesiad dargyfeirio ac atgyfeirio fod yn gyflym (48 awr) i gefnogi dargyfeirio ac ymgysylltu gan blant a chael ei nodi fel canlyniad cadarnhaol gan yr Heddlu a'u cynlluniau rheoli perfformiad.
9. Mae angen i raglenni dargyfeirio gael eu rheoli a'u cefnogi gan weithwyr achos dargyfeirio plant penodedig gyda sesiynau oddi ar y safle nad ydynt yn rhan o ddarpariaeth statudol i gefnogi ymddiriedaeth ac ymgysylltiad.
10. Mae angen i ymyriadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth, yn therapiwtig, yn anffurfiol, yn ysgafn, yn gymesur ac yn cael eu darparu gan y sector gwirfoddol / trydydd sector a chynnwys darpariaeth lleiafrifoedd ethnig arbenigol i gefnogi anghenion a phrofiadau plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.
11. Addysg a hyfforddiant i gyfreithwyr a chyngor ac arweiniad i rieni a gofalwyr i godi ymwybyddiaeth o ganlyniadau cadarnhaol dargyfeirio er mwyn cefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus ac i gyfreithwyr fod yn fwy cymwys yn ddiwylliannol wrth gefnogi plant a'u teuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.
12. Gweithio rhyngasiantaethol cryf a rhannu gwybodaeth, data a systemau i ddeall taith a chanlyniadau plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn well i gefnogi dealltwriaeth a datblygiad yn y dyfodol.
13. Mae dargyfeirio Cyfiawnder Adferol (RJ) yn ymddieithrio ymhellach blant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig oherwydd diffyg gwybodaeth, diffyg ymddiriedaeth yn y system, diffyg cynrychiolaeth ethnig mewn

staff cymorth, ofn cywilydd yn eu teulu a'u cymuned ac wrth gwrdd â'r dioddefwr.

14. Er mwyn cynyddu ymgysylltiad plant o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, mae angen dileu rhwystrau RJ trwy feithrin perthnasoedd cryf gyda phlant a'u teuluoedd ac allgymorth i godi ymwybyddiaeth o RJ mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig ac mewn ysgolion.
15. Mae angen model wedi'i ddiffinio'n glir ar lefel genedlaethol ar RJ ac addysg a hyfforddiant priodol i'r holl randdeiliaid er mwyn creu arfer ddiwylliannol gymwys effeithiol a chodi ymwybyddiaeth o fewn y GCI a'r CJS.
16. Mae angen i RJ ddefnyddio mentoriaid RJ arbenigol sydd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ac sydd wedi cael profiadau uniongyrchol o RJ i gefnogi plant o gefndiroedd tebyg yn effeithiol i ymgysylltu.
17. Dioddefwyr mewn troseddau yn aml yw'r rhai eu hystyri'r yn olaf ac mae boddhad dioddefwyr yn aml yn isel mewn rhaglenni dargyfeirio ac RJ ac felly mae angen cynnwys dioddefwyr trwy gydol cyfnod y rhaglen a'u cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau lle bo'n briodol. Mae angen i ddioddefwyr deimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, eu bod yn cael eu clywed, a bod ganddynt ddewis a rheolaeth o fewn eu profiad o raglenni dargyfeirio ac RJ.
18. Gallai dulliau MST o gefnogi dargyfeirio fod yn effeithiol ac yn ddefnyddiol yn enwedig gan fod yr ymyriad yn therapiwtig, yn cynnwys y teulu cyfan, ac wedi'i lywio gan drawma ond mae angen mwy o ymchwil yn y maes hwn.
19. Mae angen mwy o ymchwil i ddeall profiadau ac anghenion merched o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig o fewn y YJS ac i ddargyfeirio a defnyddio hyn i gydgyhyrchu gwasanaethau arbenigol ar gyfer gwaith dargyfeirio gyda merched o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.



Defnyddio Theori Dysgu ac Ymarfer wrth Ddatblygu Dulliau Dargyfeirio.

Mae ein dealltwriaeth o addysg plant, pobl ifanc ac oedolion yn amrywiol ac yn esblygu'n gyson o fewn yr hyn sy'n ymbarél amlddisgyblaethol, yn ogystal â'r damcaniaethau dysgu ac addysg a ddefnyddir i egluro sut mae pobl yn dysgu. Yn wir, nid oes un diffiniad, theori na model unigol sy'n egluro sut neu pam y mae pobl yn dysgu (Merriam, 2017). Fodd bynnag, ar draws yr holl lenyddiaeth mae set ddefnyddiol o egwyddorion a damcaniaethau sy'n llunio'r hyn y gellir eu hystyried yn sylfeini dysgu, yn ogystal â chorff cynyddol o wybodaeth sydd wedi ehangu ein dealltwriaeth a'n cymhwysiad o theori ac ymarfer a all gefnogi addysg a dysgu yn fwy diweddar (Merriam, 2017).

Canfu Adolygiad Coates (2016) fod y rhai a oedd wedi bod yn gysylltiedig â'r CJS yn aml wedi cael profiadau blaenorol negyddol o addysg ffurfiol ac mae hwn yn brofiad cyffredin sy'n cael ei gofnodi a'i adrodd yn y llenyddiaeth (Warner, 2007; Czerniawski, 2016; Torlone & Vryonides, 2016; Wood, 2020; a Jones a Jones, 2021). Felly, er gwaethaf y dystiolaeth sy'n dyrchafu manteision addysg i gefnogi ymataliad (Jones a Jones, 2021) mae'n taflu goleuni ar sut mae angen i'r rhai sy'n addysgu mewn cyd-destunau o'r fath ddeall y gall profiadau addysg yn y gorffennol y rhai y maent yn eu haddysgu effeithio ar lwyddiannau yn y dyfodol. Mae angen i'r ddealltwriaeth hon arwain dulliau ar gyfer addysg gyda'r rhai sydd wedi troseddu a gellir dadlau ei bod yn golygu bod angen defnyddio arfer andragogaidd mwy anffurfiol a thrafodaethol ac mae'n cefnogi egwyddorion dysgu Knowles et al (2005).

Felly, gellir dadlau mai'r prif elfennau i'w hymgorffori o ddamcaniaethau dysgu o fewn arferion dargyfeirio er mwyn cefnogi anghenion pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn well a'r rhai sy'n cefnogi ac yn cyflwyno rhaglenni o'r fath yw:

1. Mae'r rhai sy'n ymwneud â dargyfeirio, boed yn gleientiaid neu'n staff proffesiynol, angen gweld gwerth a rheswm yn yr hyn y maent yn ei ddysgu a'i fod yn berthnasol i'w bywydau a/neu eu rolau.
2. Archwilio a deall cymhellion dysgwyr i gefnogi eu hymrwymiad i ddysgu ac ymgysylltu.
3. Datblygu dull dysgu anffurfiol sy'n seiliedig ar sgwrs, ar y cyd, wedi'i gydgyhyrchu, yn ddyneiddiol, yn rhannu pŵer, yn foesol, ac yn cefnogi meddwl beirniadol a rhannu profiadau personol.
4. Cefnogi adfyfrio beirniadol o'ch golwg eich hun ar y byd, hanes personol, a chredoau, normau, hawliau, a chamweddau a chanolbwyntio ar atebion a herio'r dysgwr i ddeall safbwyntiau lluosog yn well a chymhwyso hyn i'w byd cymdeithasol a/neu gyd-destunau gwaith.
5. Creu amgylcheddau diogel a sicr lle mae pobl yn teimlo undod, pwrpas, ymddiriedaeth a pharch ac nad ydynt yn cael eu barnu.
6. Creu cyfle i ddatblygu ac ymgysylltu â hunan newydd a dysgu canfyddiadau a safbwyntiau newydd a allai herio a golygu creu rheolau, rolau, perthnasoedd, normau a gwerthoedd newydd.
7. Cyfle i gynllunio, ymarfer a magu hyder mewn ffyrdd newydd o fod, profiadau, sgiliau, a dod yn fwy cyfrifol am eich dysgu eich hun a dod yn ddysgwyr hunangyfeiriedig.
8. Creu amgylcheddau sy'n ddymunol ac yn agored i gefnogi dysgu a sgwrsio.

Casgliad

Mae'r adolygiad llenyddiaeth ar gyfer y prosiect hwn wedi trafod a chyfosod y llenyddiaeth sydd ar gael ynghylch ymyriadau trydyddol fel y'u diffinnir gan CJIW (2022) lle mae ymyriadau wedi'u hanelu at ddargyfeirio pobl oddi wrth y CJS ac felly'n cynnwys rhaglenni a gweithgareddau a elwir hefyd yn ddargyfeiriol, atal, ymyrraeth gynnar ac yn aml yn cael eu gweithredu trwy ddefnyddio OoCD. Prif ffocws yr adolygiad hwn oedd deall profiadau dargyfeirio ar gyfer pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig gan gynnwys ffocws penodol ar fenywod a phlant.

Roedd y llenyddiaeth a oedd ar gael a adolygwyd yn cynnwys swm sylweddol o destunau priodol yn ymwneud â'r deunydd pwnc ac yn cynnig lens i gefnogi canlyniadau'r prosiect hwn ac roedd yn cynnwys; erthyglau a chyfnodolion ymchwil, dogfennau polisi, adroddiadau, gwerthusiadau prosiect, ymarfer cyhoeddus, a dogfennau eraill megis canllawiau ymarfer. Defnyddiwyd bron i 200 o ffynonellau llenyddiaeth ar gyfer yr adolygiad hwn gan gynnig dealltwriaethau a phersbectifau penodol byd-eang, y DU a Chymru.

Cymerwyd ffynhonnell allweddol arall o ddealltwriaeth ar gyfer yr adolygiad hwn o'r naratifau a'r trafodaethau a gafwyd ynghylch profiadau'r heddlu a'r CJS ehangach drwy'r ymgysylltiadau a gynhaliwyd ledled Cymru wrth gyd-gynhyrchu'r gwaith o lunio'r Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth ar gyfer y CJS yng Nghymru (2022).

Yn olaf, oherwydd y llinyn o ymarfer wedi'i lywio gan drawma o fewn y Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth ar gyfer y CJS yng Nghymru, lle'r oedd dealltwriaethau i'w hennill o fewn y llenyddiaeth a adolygwyd, cynhwyswyd sylw penodol i brofiadau trawma a thrawma hiliol a'u cyfosod.

Yn y pen draw, mae'r adolygiad hwn wedi darparu trosolwg manwl o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r cymwysiadau i ymarfer o fewn dargyfeirio a, lle bo hynny ar gael, y dysgu, y ddealltwriaeth a'r argymhellion ar gyfer ymarfer yn y dyfodol i gefnogi pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn well mewn gwaith o'r fath. Bydd yr adolygiad hwn yn sicrhau y gellir cytuno ar adroddiad terfynol (cam pedwar) sy'n cynnig dealltwriaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'i chydgyhyrchu ar sut i ddatblygu dulliau amgen neu wedi'u teilwra o ddargyfeirio ar gyfer grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig sydd hefyd wedi'u llywio gan drawma.

Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn cynnig argymhellion a gwersi allweddol ar gyfer yr holl feysydd trafod. Fodd bynnag, er gwaethaf y meysydd ymchwil, polisi ac ymarfer helaeth a drafodwyd yn yr adolygiad hwn, mae rhai themâu cyffredin clir a gwersi i'w dysgu i'w datblygu ar gyfer ymarfer dargyfeirio er mwyn cefnogi pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn well.



Yn wir, y prif feysydd i'w datblygu i greu dull dargyfeirio effeithiol i ddiwallu anghenion pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yw'r canlynol:

- Adnodd tymor hir i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud yn effeithiol a bod ganddo amser i ddatblygu, ei fod yn cael ei werthuso'n effeithiol ac i ddangos effaith a meysydd ar gyfer dysgu a datblygu parhaus.
- Llywodraethu ac arweinyddiaeth gref ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol a thrwyddi.
- Addysg a Hyfforddiant i ddatblygu ymarferwyr ac arweinwyr sy'n ddiwylliannol gymwys a gwrth-hiliol o fewn yr holl randdeiliaid sy'n ymwneud ag arferion dargyfeirio er mwyn cefnogi perthnasoedd effeithiol â phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (gan gynnwys cyfreithwyr a'r llysoedd).
- Mae datblygu perthnasoedd effeithiol sy'n ddiwylliannol gymwys ac yn wrth-hiliol yn golygu bod ymarferwyr yn hyderus i drafod diwylliant, ethnigrwydd, hiliaeth, trawma hiliol, a hunaniaethau eraill megis rhai crefyddol, rhywiol, a dosbarth i gefnogi'r profiadau a'r anghenion.
- Mae angen hefyd adeiladu perthnasoedd effeithiol ym maes dargyfeirio trwy barch cilyddol, ymarfer wedi'i lywio gan drawma, cymorth cyfannol sy'n cael ei arwain gan anghenion, a chefnogi cleientiaid i ddatblygu meddwl beirniadol a sgiliau adfyfyrio er mwyn cael mwy o hunan-asiantaeth a gwneud dewisiadau bywyd gwybodol ac i gydgyhyrchu eu cynllun ymyrraeth a chymorth eu hunain fel rhan o'r broses ddatblygu hon.
- Deall bod pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn wynebu rhwystrau lluosog i ymgysylltu â'r CJS oherwydd hiliaeth ac anghymesuredd a'u bod wedi profi ACE lluosog, hiliaeth, trawma hiliol, a bod ganddynt anghenion cymorth sylweddol a diffyg ymddiriedaeth yn y CJS a sefydliadau eraill mewn cymdeithas. Felly, mae angen i feini prawf cymhwyster ar gyfer rhaglenni dargyfeirio fod yn eang, yn hyblyg, yn faddeuol, ac yn gynhwysol, ac nid oes angen cyfaddefiad o euogrwydd am ymgysylltu.
- Ystyried y dylai arferion dargyfeirio gael eu safoni ledled Cymru ac y dylai'r model ddefnyddio dull dargyfeirio adeg arestio lle bo'n bosibl ac y dylai pob rhybuddiad seiliedig ar amodau ddefnyddio proses cyfiawnder adferol sydd wedi'i gwreiddio yn y cymorth a'r ymyriadau a ddarperir.
- Ymchwilio i anghenion a phrofiadau pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig o ddargyfeirio a chydgyhyrchu arfer a phrosiectau newydd gyda'r rhai sydd â phrofiadau uniongyrchol.
- Defnyddio a datblygu darpariaeth a chymorth arbenigol i bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sy'n annibynnol ar y CJS / gwasanaethau statudol gan fod mwy o ymddiriedaeth ynddynt ac mae pobl yn ymgysylltu'n fwy hyderus ond hefyd i'r CJS weithio mewn partneriaeth â darparwyr o'r fath i ddysgu a deall gwasanaethau o'r fath, meithrin ymddiriedaeth gyda gwasanaethau o'r fath, a chyda grwpiau a chymunedau o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.
- Datblygu gweithlu ethnig amrywiol sy'n adlewyrchu'r bobl y mae'n eu cefnogi.
- Codi ymwybyddiaeth trwy allgymorth cymunedol i hyrwyddo mwy o ddealltwriaeth a chefnogaeth i'r dull dargyfeirio cadarnhaol, a chynghor ac arweiniad i grwpiau lleiafrifoedd ethnig ynghylch dulliau dargyfeirio i gefnogi ymddiriedaeth yn y system a gwneud penderfyniadau gwybodol.

Llyfryddiaeth a Chyfeiriadau

- Adebisi, F. (2019). The only accurate part of 'BAME' is the 'and' [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://folukeafrica.com/the-only-acceptable-part-of-bame-is-the-and/>
- Advance (2021). London Women's Diversion Service The impact of community support on diverting women from the criminal justice system. Ar gael yn: <https://www.advancecharity.org.uk/wp-content/uploads/2021/11/London-Womens-Diversion-report-2021-final-.pdf>
- Ames, A., Di Antonio, E., Hitchcock, J., Webster, S., Ellingworth, D., Meadows, L., McAlonan, D., Uhrig, N., & Logue, C. (2018) Adult Out of Court Disposal Pilot Evaluation – Final Report– Ministry of Justice Ministry of Justice Analytical Series 2018. Ministry of Justice. ISBN 978-1-84099-750-7. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/718947/adult-out-of-court-disposal-pilot-evaluation.pdf
- Anderson RE, & Stevenson HC (2019). RECASTing racial stress and trauma: Theorizing the healing potential of racial socialization in families. American Psychologist, 74(1), 63–75. 10.1037/amp0000392.
- Asmussen, K., Fischer, F., Drayton, E., a McBride, T. (2020) *Adverse childhood experiences: what we know, what we don't know, and what should happen next*. Ar gael yn: <https://www.eif.org.uk/files/pdf/adverse-childhood-experiences-report.pdf>
- Association of Chief Police Officers of England, Wales and Northern Ireland (ACPO) (2012) Guidelines on the use of Community Resolutions Incorporating Restorative Justice. Ar gael yn: <https://library.college.police.uk/docs/appref/Community-Resolutions-Incorporating-RJ-Final-Aug-2012-2.pdf>
- Back et al. (2014) Blended learning approach improves teaching in a problem-based learning environment in orthopaedics - a pilot study, BMC Medical Education, 14:17, 1-8.
- Banwell-Moore, Rebecca. (2022). The Delivery of Restorative Justice in Youth Offending Teams in England and Wales: Examining Disparities and Highlighting Best Practice. Laws 11: 60. <https://doi.org/10.3390/laws11040060>
- Bateman, T. & Hazel, N. (2014) The Resettlement of Girls and Young Women: Evidence From Research. Beyond Youth Custody. Ar gael yn: http://www.beyondyouthcustody.net/wp-content/uploads/421-research-report_04_8_w-front_cover.pdf
- Bennett, L. a Corry-Roake, E. (2021). Evidence review: diverting young adults away from the cycle of crisis and crime. Revolving Door Agency. Ar gael yn: <https://barrowcadbury.org.uk/wp-content/uploads/2021/07/RDA-T2A-Diverting-young-adults-away-from-the-cycle-of-crisis-and-crime.pdf>
- Bhatia, M. (2017) Racist Hate Crimes Against Those Seeking Asylum. Ar gael yn: <https://www.law.ox.ac.uk/research-subject-groups/centre-criminology/centreborder-criminologies/blog/2017/05/racist-hate>

- Bhattacharya, A. (2021). Earning trust: improving criminal justice outcomes for ethnic minorities: BRIEFING PAPER. Social Market foundation. Ar gael yn: <https://www.smf.co.uk/publications/earning-trust/>
- Boachie, V. (2021). A guide to understanding racial trauma [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://sparkandco.co.uk/blog/guide-understanding-racial-trauma>
- Bolton, G. (2014). Reflective Practice: Writing and professional development. (4th ed). London: Sage.
- Bowen a Slade (2020) Delivering a Smarter Approach: Reforming Out of Court Disposals. London: Centre for Justice Innovation. Ar gael yn: <https://justiceinnovation.org/sites/default/files/media/document/2020/Delivering%20a%20smarter%20approach.pdf>
- Bransford, J. D., A. L. Brown, et al., Eds. (2000). How People Learn: Brain, Mind, Experience, and School, National Academy Press.
- Brockbank, A a McGill, I (2007) Facilitating Reflective Practice Through Mentoring and Coaching London: Kogan Page
- Bryant-Davis T (2007). Healing requires recognition: The case for race-based traumatic stress. The Counselling Psychologist, 35(1), 135–143. 10.1177/0011000006295152.
- Buncy, S. a Ahmed, I. (2019). Sisters in desistance: Community-based solutions for Muslim women post-prison. Bradford: Khidmat Centres.
- Bunting A, Fox S, Adhyaru J, Holland A. (2020). Considerations for minority ethnic young people in multisystemic therapy. Clin Child Psychol Psychiatry. 2021 Jan;26(1):268–282. Doi: 10.1177/1359104520969762. Epub 2020 Nov 6. PMID: 33158384; PMCID: PMC7802048.
- Burman, M. & Gelsthorpe, L. (2017) Feminist criminology: inequalities, powerlessness and justice. In: Liebling, A., Maruna, S. and McAra, L. (eds) The Oxford Handbook of Criminology, 6th edition. Oxford: Oxford University Press, pp.213–238.
- Campbell, L., Ashworth, A. a Redmayne, M. (2019) The Criminal Process (Fifth Edition). Oxford: Oxford University Press.
- Carter RT, Forsyth JM, Mazzula SL, & Williams B (2005). Racial discrimination and race-based traumatic stress: An exploratory investigation. In Carter RT (Ed.), Handbook of Racial-Cultural Psychology and Counselling, Vol. 2. Training and Practice (p. 447–476). John Wiley & Sons, Inc.
- Case, Stephen; Browning, Ann (2021): Child First Justice: the research evidence-base [Summary report]. Loughborough University. Report. Ar gael yn: <https://hdl.handle.net/2134/14153162.v1>

Case, S., Sutton, C.E., Greenhalgh, J., Monaghan, M. a Wright, J. (2022), "Searching for context: a review of "what works" reviews of interventions to prevent youth offending using the EMMIE Framework", *Safer Communities*, Vol. 21 No. 4, pp. 272-289. <https://doi.org/10.1108/SC-04-2022-0014>

Case, S a Hazel, N (2020) *Child first, offender second – A progressive model for education in custody*, *International Journal of Educational Development*, 77, 102244, ISSN: 0738-0593. DOI: [10.1016/j.ijedudev.2020.102244](https://doi.org/10.1016/j.ijedudev.2020.102244).

Centre for Justice Innovation (2016). Valuing youth diversion: A toolkit for practitioners.

Centre for Justice Innovation (2019). Pre-court diversion for women: Evidence and practice briefing. Ar gael yn: https://justiceinnovation.org/sites/default/files/media/documents/2020-02/pre-court-diversion_for_women_for_website.pdf

Centre for Justice Innovation (2021). Disparities in youth diversion – an evidence review. Ar gael yn: https://justiceinnovation.org/sites/default/files/media/document/2021/disproportionality_diversion_lit_review.pdf

Centre for Justice Innovation (2021a) Equal Diversion: Racial disproportionality in youth diversion. Ar gael yn: <https://justiceinnovation.org/publications/equal-diversion-racial-disproportionality-youth-diversion>

Centre for Justice innovation (2022). Conditional cautions: An evidence review. Ar gael yn: <https://justiceinnovation.org/sites/default/files/media/document/2022/CC.pdf>

Centre for Innovative Justice (2022a). Project SHE (Support, Help, and Engagement). Ar gael yn: <https://justiceinnovation.org/project/project-she-support-help-and-engagement>

Centre for Innovative Justice (2022b). Effective point-of-arrest diversion for children and young people. Published by Clinks, evidence library. Ar gael yn: https://www.clinks.org/sites/default/files/2022-12/clinks_el_diversion_for_children_and_young_people_0.pdf

Centre for Innovative Justice (2022c). Children and young people's voices on youth diversion and disparity. Ar gael yn: https://justiceinnovation.org/sites/default/files/media/document/2022/CJI_Children%20and%20young%20people%E2%80%99s%20voices%20%281%29.pdf

Centre for Mental Health (2021). Guide to race and ethnicity terminology. Ar gael yn: <https://www.centreformentalhealth.org.uk/sites/default/files/2021-06/RaceAndEthnicityTerminologyGuideJune2021.pdf>

Chakraborti, N. (2017) 'Responding to Hate Crime: Escalating Problems, Continued Failings', *Criminology and Criminal Justice*, 18 (4): 387-404.

Chakraborti, N. (2021). Challenging Hate Crime in Challenging Times. The Centre for Hate studies. Ar gael yn: <https://sticerd.lse.ac.uk/seminarpapers/ses10032021.pdf>

Chism, Nancy Van Note (2006). Challenging Traditional Assumptions and Rethinking Learning Spaces. In Oblinger, Diana G. (ed) *Learning Spaces*, Educause, Available electronically at www.educause.edu/learningspaces, 2.1-12.

Clarke, A. (2008). *E-learning skills*. (2nd ed). Hampshire: Palgrave Macmillan.

Clark, D. (1996) *Schools as learning communities*. London: Cassell

Clarke, B. & Chadwick, K. (2020) *Stories of Injustice: The Criminalisation of Women Convicted Under Joint Enterprise Laws*. Manchester Metropolitan University. Ar gael yn: <https://www.crimeandjustice.org.uk/resources/stories-injustice-criminalisation-women-convicted-under-joint-enterprise-laws>

